# Dysgu Creadigol Cymru 25-26

# Hwyluswyr Hyfforddiant Dysgu Creadigol – Canllawiau Ymgeisio

## Beth yw Archwilio?

Mae **Dysgu Creadigol Cymru** yn falch o ddatgelu pennod newydd gyffrous yn ein cenhadaeth i roi creadigrwydd wrth wraidd addysg, yn dilyn cais llwyddiannus diweddar Cyngor Celfyddydau Cymru i raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru. Wedi'i hariannu trwy fuddsoddiad o £3m gan Lywodraeth Cymru, gyda chyllid cyfatebol gan gyllid y Loteri Genedlaethol a ddosberthir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, bydd y rhaglen tair blynedd gwerth £6m yn rhedeg tan fis Mawrth 2028.

Bydd y rhaglen newydd yn cefnogi ysgolion ledled Cymru i ail ddychmygu sut i fynd ati i ddylunio cwricwlwm, diwygio profiadau dysgu ag addysgu, datblygu lefelau ymgysylltu, a datgloi potensial dysgwyr trwy ddulliau beiddgar a chreadigol. Mae'r fenter newydd hon yn digwydd ar adeg hollbwysig ym myd addysg Cymru, gan gyd-fynd yn agos ag uchelgeisiau Cwricwlwm i Gymru. Bydd pwyslais clir ar lythrennedd, iechyd a lles, a gwreiddio creadigrwydd ar draws y cwricwlwm.

### Archwilio

Mae Archwilio yn rhaglen ddeinamig, greadigol, genedlaethol sy'n cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol wyneb yn wyneb am ddim i athrawon, uwch gynorthwywyr ac arweinwyr. Mae'r cyfleoedd wedi'u dylunio i ymddwyn fel hyfforddiant sylfaenol yn o gystal â sesiynau gloywi, a fydd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau hunan-werthuso, cyngor ar gynllunio i annog creadigrwydd, a syniadau ymarferol ynglŷn â sut i ddod â dysgu creadigol yn fyw ar lawr y dosbarth.

Gall y rhai sy'n mynychu ddisgwyl cyfle i archwilio gwahanol dechnegau a dulliau ynghylch sut i gychwyn, neu ddatblygu eu gallu i;

- wreiddio Pedwar Diben Cwricwlwm Cymru, gyda phwyslais ar ddatblygu cyfranwyr mentrus a chreadigol.
- ddatblygu sgiliau meddwl creadigol a beirniadol, gan helpu dysgwyr i ffynnu mewn byd sy'n esblygu'n barhaus.
- godi safonau llythrennedd a llafaredd, yn enwedig ymysg ein dysgwyr mwyaf difreintiedig.

- godi lefelau iechyd a lles ag ymgysylltiad trwy wneud dysgu yn fwy ystyrlon a chynhwysol.
- flaenoriaethu llais y disgybl wrth fynd ati i ddylunio cwricwlwm a datblygu cynlluniau gwella ysgol.

## Cwestiynau Cyffredin

**Ar gyfer pwy mae ARCHWILIO?**
Athrawon, Uwch Gynorthwywyr Addysgu, Arweinwyr Cwricwlwm, Aelodau'r tîm Arweinyddiaeth.

**Faint o sesiynau ARCHWILIO a gynhelir, a ble y'u cynhelir?**
Cynhelir y sesiynau wyneb-yn-wyneb mewn chwech o leoliadau ledled Cymru. Dwy sesiwn y tymor ym mhob lleoliad (12 sesiwn y tymor)

**Pa mor hir fydd y sesiynau?**
Bydd pob sesiwn yn rhedeg o 9:30 - 14:30 a bydd cinio wedi'i ddarparu.

**Ar ba ddyddiau y cynhelir sesiynau ARCHWILIO?**
Bydd holl sesiynau ARCHWILIO yn digwydd ar ddydd Mawrth neu/a dydd Iau

**Faint fydda i'n cael fy nhalu, a faint o sesiynau fydda i'n cael eu cynnig?**
Bydd Hwyluswyr Hyfforddiant Dysgu Creadigol yn cael eu talu £300 y dydd, ynghyd â threuliau teithio. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cynnig rhwng 5 ac 8 diwrnod o waith i'r Hwyluswyr bob blwyddyn academaidd.

**Sut olwg sydd ar gynnwys a siâp y diwrnod?**
Amrywiaeth ddwyieithog o weithgareddau hwyliog, hunan-fyfyriol a phwrpasol, a sgyrsiau ymarferol fydd yn archwilio ac yn cyflwyno gwahanol syniadau i fynychwyr ynghylch sut i roi dysgu creadigol ar waith yn yr ystafell ddosbarth. Bydd sesiynau ARCHWILIO yn dilyn tair thema benodol: Dysgu Creadigol ar draws y cwricwlwm, Llesiant a Llythrennedd, a bydd pob un ohonynt yn ddefnyddiol i helpu athrawon gyda dylunio cwricwlwm.

**Pwy fydd yn rhan o'r tîm hyfforddi?**
Bydd pob sesiwn ARCHWILIO yn cael ei chyflwyno'n ddwyieithog gan dîm o ddau Arweinydd Prosiect o'r tîm Dysgu Creadigol ac un Hwylusydd Hyfforddiant Dysgu Creadigol.

**Sut fydd ysgolion yn gwneud cais, ac a oes cost i athrawon fynychu?**
Bydd athrawon yn cofrestru drwy broses gofrestru ar-lein. Mae'r sesiynau am ddim.

**A fydda i'n cael fy hyfforddi?**
Byddwch, bydd yn rhaid i chi fynd i sesiwn 'hyfforddi'r hyfforddwr' a chewch dâl am

hynny. Bydd cyfarwyddiadau ac arweiniad ar arddull cyflwyno, cynnwys a deunyddiau yn cael eu darparu yn y sesiwn hon.

**Beth yw'r dyddiadau allweddol y mae angen i mi fod ar gael ar eu cyfer?**

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau | **Dydd Iau 7fed Awst 2025** |
| 'Hyfforddi'r hyfforddwr' (Lleoliad i'w gadarnhau) | **Dydd Mercher 1af Hydref 2025*** |
| Dyddiau Hyfforddi | **Dydd Mawrth** neu **ddydd Iau** yn ystod tymor yr ysgol |

***Peidiwch ag ymgeisio os nad ydych ar gael ar y dyddiad hwn.**

Bydd manylion llawn ynghylch pa sesiynau y bydd gofyn i chi eu cyflwyno wedi'u cynnwys yn eich cytundeb cychwynnol, gyda dyddiadau yn y dyfodol wedi'u cynnwys mewn diweddariadau i'ch cytundeb. Rydym yn disgwyl cyhoeddi cytundebau ym mis Medi 2025.

**Beth ydych chi'n chwilio amdano mewn Hwylusydd Hyfforddiant Dysgu Creadigol?**
Darperir tabl manyleb deilydd y swydd cynhwysfawr isod – gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen hwnnw'n ofalus cyn cyflwyno cais, yn enwedig y meini prawf hanfodol. Dylech hefyd ystyried y ddogfen gyfan hon a'r ffurflen gais ar-lein yn ofalus yn ogystal.

Dau ofyniad penodol allweddol yw y dylech fod â phrofiad sylweddol o gyflwyno hyfforddiant proffesiynol, a'ch bod wedi gweithio ar y Rhaglen Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau yng Nghymru fel Asiant Creadigol, Ymarferydd Creadigol neu Weithiwr Creadigol Proffesiynol (ac wedi mynychu hyfforddiant yn llwyddiannus ar gyfer un neu fwy o'r rolau hyn).

**Faint o Hwyluswyr Hyfforddi Dysgu Creadigol fydd yn cael eu penodi?**
Uchafswm o chwech, o bob cwr o Gymru.

**Sut mae gwneud cais?**
[Trwy gyflwyno ffurflen gais.]()
Peidiwch ag anghofio i wirio eich atebion yn ôl manyleb deilydd y swydd isod a chynnwys enghreifftiau i gefnogi eich datganiadau. Peidiwch ag anfon CV.

**Pwysig**: nodwch y byddwn yn seilio ein penderfyniadau ar yr wybodaeth a gyflenwir drwy'r broses recriwtio hon yn unig (nid ar unrhyw wybodaeth flaenorol a allai fod gennym am eich gwaith na'ch cymwysterau).

# Manyleb Deilydd y Swydd – Hwylusydd Hyfforddiant Dysgu Creadigol

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Gwybodaeth | - Gwybodaeth am greadigrwydd a'r broses greadigol<br><br>- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau hyfforddi addysgeg ac ymarferion myfyrio Dysgu Creadigol Cymru<br><br>- Dealltwriaeth a'r gallu i werthfawrogi hunanymwybyddiaeth mewn gofod hyfforddi deinamig<br><br>- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gydweithio a chyd-ddysgu a chyd-hwyluso effeithiol | - Gwybodaeth am yr ymdrech i ddiwygio addysg yng Nghymru, a sut mae hyn yn berthnasol i waith Dysgu Creadigol Cymru<br><br>- Dealltwriaeth o raglenni gweithgaredd sy'n bodloni blaenoriaethau datblygu ysgolion a'u dysgwyr<br><br>- Gwybodaeth am asesiadau risg Iechyd a Diogelwch yn y gweithle |
| Sgiliau | - Sgiliau cyfathrebu cryf yn Saesneg a'r/neu'r Gymraeg<br><br>- Meddu â'r gallu i fod yn drefnus ac i reoli amser yn effeithiol<br><br>- Agwedd gadarnhaol a phroffesiynol a'r gallu i ysgogi ac annog cydweithwyr a dysgwyr mewn amgylchedd hyfforddiant<br><br>- Parodrwydd i drin cydweithwyr ag athrawon fel partneriaid cyfartal ac i weithio mewn ffyrdd myfyriol<br><br>- Ymrwymiad i gofleidio holl werthoedd ac egwyddorion addysgeg Dysgu Creadigol Cymru, a'u cynrychioli yn llawn brwdfrydedd fel ein llysgennad | - Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>- Hyfforddiant proffesiynol neu gymhwyster(au) addysgu |
| Profiad | - Profiad o ddarparu hyfforddiant proffesiynol o ansawdd uchel i oedolion<br><br>- Profiad o sefydlu perthnasoedd proffesiynol hyderus, diplomataidd a chynhyrchiol<br><br>- Profiad blaenorol o ddysgu creadigol a'r berthynas rhwng ymarfer creadigol a chreadigrwydd eraill<br><br>- Profiad o weithio fel gweithiwr creadigol proffesiynol, ymarferydd neu asiant ar draws un o raglenni Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru | - Darparu hyfforddiant o ansawdd uchel i athrawon a gweithwyr y sector addysg mewn ysgolion yng Nghymru.<br><br>- Profiad blaenorol o gyflwyno hyfforddiant ar raglenni Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru<br><br>- Os ydych chi'n uniaethu fel rhywun o grŵp neu gymuned sydd heb gynrychiolaeth ddigonol |